Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Llongyfarchiadau..

# CLWB HOCI I FENYWOD CWM RHONDDA



12 Diwrnod y Nadolig 2023
Enillydd 5

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# CLWB HOCI I FENYWOD CWM RHONDDA

Mae Clwb Hoci i Fenywod Cwm Rhondda wedi bod yn darparu cyfleoedd hoci ers 1980. Maen nhw wedi'u lleoli yn y Ddraenen-wen, a'u nod yw cefnogi ac annog yr holl aelodau i gyrraedd eu llawn botensial, boed hynny fel chwaraewr, hyfforddwr, dyfarnwr neu wirfoddolwr.

Maen nhw'n glwb cynhwysol, cyfeillgar sy'n canolbwyntio ar y teulu ac maen nhw bob amser yn barod i groesawu aelodau newydd i ymuno â'r teulu hoci. Mae oedran eu haelodau presennol yn amrywio o 7 i 65 oed.

Mae gan y clwb dri thîm hŷn yn chwarae hoci ar lefel cynghrair, a dau dîm sy'n ymuno â'r gynghrair hoci dan do. Maen nhw'n cystadlu mewn twrnameintiau gyda'u timau iau, a hefyd yn darparu sesiynau 'Dychwelyd i Hoci' ar gyfer chwaraewyr newydd neu chwaraewyr sy'n dychwelyd i chwarae hoci mewn amgylchedd cymdeithasol ac anffurfiol.